Rhaglen Gyflawn

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

North Wales Economic Ambition Board

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD GWENER, 9FED RHAGFYR, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**EirianRoberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 02/12/2022)

## BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

### Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Dyfrig Siencyn | Cyngor Gwynedd |

### Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Edmund Burke | Prifysgol Bangor |

### Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

### Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dewi Morgan | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Hedd Vaughan Evans | Pennaeth Gweithrediadau |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Hydref, 2022 fel rhai cywir

## 5. CRONFA CYFLAWNI'R PORTFFOLIO 10 - 12

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio a Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau i gyflwyno'r adroddiad.

## 6. PROSES NEWID PROSIECT 13 - 21

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio a Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau i gyflwyno'r adroddiad.

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**28/10/22**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Carwyn Elias Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo-Menai), Dr Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflenwi Busnes) a'r Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Andrew Farrow (Cyngor Sir y Fflint), Richard Weigh (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

Swyddogion yn bresennol – Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Digidol), Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), David Matthews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau – Awdurdod Lletya) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Awdurdod Lletya).

Hefyd yn bresennol – Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)

Sylwedyddion - Gareth Ashman a Dewi Williams (Llywodraeth Cymru) (hyd at eitem 7 yn unig)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Hedd Vaughan Evans (Rheolwr Gweithrediadau) Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru) a Jane Richardson (Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Medi, 2022 fel rhai cywir.

## 5. CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2022 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol) ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru).

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r:**

- **Adroddiad 'ISA 260' gan Archwilio Cymru ar gyfer y BUEGC.**
- **Datganiad o Gyfrifon Terfynol y BUEGC (ôl archwiliad) am 2021/22.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2021/22. Roedd y prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn rhan 16 o'r adroddiad ac Atodiad 3 'ISA260' Archwilio Cymru.

Gofynnid i Gadeirydd y Bwrdd, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig (Atodiad 1 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r BUEGC gymeradwyo'r uchod.

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

**TRAFODAETH**

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Nododd y Swyddog Cyllid Statudol:-

- Bod paragraff 10 o adroddiad Archwilio Cymru yn nodi eu bod yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddai'r Bwrdd Uchelgais wedi rhoi Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru yn seiliedig ar yr hyn a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- Bod Atodiad 3 i adroddiad yr archwilwyr yn tynnu sylw at un cywiriad a wnaed i'r cyfrifon yn ystod yr archwiliad, a bod hynny'n fater technegol yn unig yn ymwneud â phensiynau.

Nododd y Swyddog Cyllid Statudol ymhellach y dymunai ddiolch i Yvonne Thomas a'r tîm yn Archwilio Cymru am eu gwaith ar yr archwiliad, ac i Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau) a'r tîm yn Adran Gyllid Cyngor Gwynedd am eu gwaith yn paratoi'r Datganiad o Gyfrifon.

Croesawyd Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), i'r cyfarfod, ac fe'i gwahoddwyd i ddweud gair:-

Nododd Yvonne Thomas ei bod yn falch o ddweud bod Archwilio Cymru o'r farn bod y cyfrifon yn ddarlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Uchelgais ar gyfer y flwyddyn ariannol. Tynnodd sylw at ambell bwynt yn yr adroddiad, sef:-

- Nad oedd archwilwyr byth yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, pennid lefel o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai, fel arall, beri i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain, ac ar gyfer archwiliad eleni, pennwyd lefel perthnasedd o £57,000.

- Nad oedd yr archwiliad wedi'i gwblhau ar adeg drafftio'r adroddiad, ond y gellid cadarnhau erbyn hyn bod yr archwiliad wedi'i gwblhau ac nad oedd yna unrhyw faterion ychwanegol wedi eu codi.
- Bod yr adroddiad yn sôn am effaith Covid ar archwiliad eleni o ran yr amserlen a'r dull archwilio, ac o ystyried gweithio o bell parhaus, bwriedid defnyddio llofnodion electronig ar gyfer cymeradwyo ac ardystio cyfrifon eleni.
- O ran materion arwyddocaol sy'n codi o'r Archwiliad, ei bod yn bleser adrodd mai man wallau naratif a chyflwyniadol yn unig oedd yn codi o'r archwiliad, ac roedd y ffaith bod cyn lleied o faterion wedi codi yn neges bositif ac yn adlewyrchu'n dda ar y trefniadaeth sydd mewn lle ar gyfer paratoi'r cyfrifon.
- Y dymunai ddiolch i Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau) a'r tîm am eu cymorth i gwblhau'r archwiliad.
- Bod yr un cywiriad a wnaed i'r cyfrifon yn welliant cyflwyniadol yn unig, ac na chafodd unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.

Nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn un positif oedd yn cadarnhau bod gennym dîm effeithiol o fewn Adran Gyllid Cyngor Gwynedd.

## 6. ADRODDIAD CYNNYDD A RISG CHWARTER 2 CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) drosolwg o uchafbwyntiau'r adroddiad, a manylodd y Rheolwyr Rhaglen ar y diweddariadau rhaglen, fel a ganlyn:-

- Ynni Carbon Isel - Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni);
- Digidol – Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Digidol);
- Tir ac Eiddo - David Matthews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo);
- Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth ac Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel – Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf).

Yna cyflwynodd Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) dabl yn tracio'r gwaith o gyflawni prosiectau a chyflwynodd Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni) drosolwg o'r prif risgiau.

**PENDERFYNIAD**

1. **Nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.**
2. **Cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan y BUEGC, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**TRAFODAETH**

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Gan gyfeirio at Gytundeb Menter ar y Cyd Parc Bryn Cegin, Bangor (Rhaglen Tir ac Eiddo), gofynnwyd am eglurhad o'r sylw a wnaed yn ystod y cyflwyniad bod y trafodaethau wedi cyrraedd y cam lle'r mae'r risgiau ariannol i'r Bwrdd wedi'u capio. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Rhaglen, er na ellid cadarnhau nad oes cynnydd mewn costau, na fyddai'r Bwrdd yn gwario uwchlaw'r swm yr oedd wedi'i ddynodi ar gyfer y cynllun, a phetai'r gost yn llai

na'r swm a ddynodwyd, yna byddai gan y Bwrdd yr hawl i ail-ddefnyddio'r arian ar gyfer prosiect gwahanol o fewn y Cynllun Twf.

Gan gyfeirio at y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter (Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel), gofynnwyd am eglurhad o'r sylw a wnaed yn ystod y cyflwyniad bod amcangyfrif 30-40% o gynnydd yng nghostau sefydlu'r ganolfan. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Rhaglen fod yna ddau fwlch ariannu, un o fewn y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth a'r llall o fewn y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel. O ran bwlch ariannu costau prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon, nodwyd bod y tîm yng Ngrŵp Llandrillo Menai yn edrych ar dri opsiwn ar hyn o bryd, sef:-

- Lleihau sgôp y prosiect
- Ceisio sicrhau arian ychwanegol ar gyfer y prosiect
- Tynnu'r prosiect yn ôl.

O ran bwlch ariannu costau sefydlu'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter, nodwyd bod y tîm ym Mhrifysgol Glyndŵr yn datblygu opsiynau hefyd. Nid oedd yn glir eto beth yn union fyddai'r opsiynau hynny, ond gofynnwyd iddynt gyflawni ymarferiad tebyg i un Grŵp Llandrillo Menai, gan edrych ar newid sgôp y prosiect ac ystyried unrhyw gamau lliniaru eraill posib' ar gyfer rheoli'r bwlch. Nodwyd eu bod hefyd yn edrych ar newidiadau i amseriad y prosiect.

Nododd cynrychiolydd Prifysgol Glyndŵr ei bod yn anorfod y byddai yna oedi sylweddol gyda phrosiect y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter, ond y dymunai gadw meddwl agored o ran y posibilrwydd o gyflwyno'r achos busnes llawn i'r Bwrdd i'w ystyried rywle rhwng y dyddiad a ragwelwyd yn wreiddiol, sef Mawrth 2023, a'r dyddiad sy'n cael ei nodi ar hyn o bryd, sef Medi 2023.

Nododd y Cadeirydd y byddai hynny'n newydd i'w groesawu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amseru prosiectau yn gyffredinol, nododd y Cyfarwyddwr Portffolio y croesawid pob cyfle i ddod â phenderfyniadau i sylw'r Bwrdd yn gynt, sy'n golygu osgoi cynnydd di-angen mewn costau yn yr hinsawdd sydd ohoni. O ran y prosiect penodol dan sylw, credid ei bod o fewn rheolaeth Prifysgol Glyndŵr i ddod â'r achos busnes ymlaen, a chadarnhawyd y byddai Swyddfa Rheoli'r Portffolio, y Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf a'r tîm yn gwneud popeth i hwyluso hynny petai'r achos busnes yn barod i'w gymeradwyo.

Nododd cynrychiolydd Grŵp Llandrillo Menai, tra'n derbyn bod posib' parhau i roi'r cynlluniau busnes at ei gilydd, ei bod yn anodd cyfiawnhau'r egni a'r gost o wneud hynny os nad yw'r pecyn cyllidol yn ei le. Ychwanegodd ei fod yn falch o'r gwaith oedd wedi digwydd dros yr wythnosau diwethaf, yn benodol gyda'r Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf a'r tîm yn nhermau ceisio dod at opsiynau, ond yr hoffai feddwl y gellid dod â phapur yn fuan i'r Bwrdd, gan y byddai hynny yn ei dro yn arwain at godi egni mawr i symud ymlaen i'r camau nesaf.

Gan gyfeirio at y gofrestr risg, nodwyd:-

- Y deellid pam bod dwy o'r risgiau, sef Adfer yr Economi a Chytundeb Gweithredu a Masnach yr UE / y DU wedi cau. Roedd risgiau yn anorfod, ond gellid bod yn ffyddiog bod gan y Bwrdd y gallu a'r set sgiliau i reoli'r risgiau hynny a symud y cynlluniau yn eu blaenau.
- Nad oedd y risgiau yn cael eu dileu mewn gwirionedd, ond yn hytrach yn cael eu disodli gan risgiau mwy yn anffodus.

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:-**

**Eitem 8 – gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

**Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud â'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.**

**Eitem 9 – Gan fod gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad yn gyfrinachol fel y diffinnir yn Adran 100(A)3 Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan iddi gael ei darparu gan Adran o'r Llywodraeth ar delerau sy'n gwahardd ei datgelu'n gyhoeddus.**

**Mae'n rhaid gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.**

**8. ACHOS BUSNES Y PORTFFOLIO 2022**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio).

**PENDERFYNIAD**

1. **Cymeradwyo diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.**
2. **Nodi er bod Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan wedi cael ei dynnu allan o'r Cynllun Twf, bod y targedau sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn yn parhau i gael eu cofnodi o fewn yr achos busnes, a byddant yn parhau felly nes ceir penderfyniad ar brosiect(au) i gymryd ei le.**
3. **Nodi fod prosiect Fferm Sero Net Llysfasi wedi cael ei dynnu allan o'r Cynllun Twf gan Goleg Cambria ac y bydd yr Achos Fusnes yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn cyn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Hefyd, bod prosiect (Egni) yn parhau i gael ei adolygu a bod y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect wedi'i chynnwys yn yr achos busnes gan aros am gwblhau'r adolygiad a phenderfyniad y Bwrdd.**
4. **Gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio gyflwyno'r holl ddogfennaeth ofynnol a'r ffurflen gais i newid i Lywodraethau Cymru a'r DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol a dirprwyo hawl i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, y Swyddog Monitro a'r Swyddog a151 i negodi gyda Llywodraeth Cymru a**

**Llywodraeth y DU ar amseriad y trosglwyddiad arian ac i wneud unrhyw fân addasiadau ar gais y naill lywodraeth neu'r llall.**

5. **Nodi argymhellion yr Adroddiad Sicrwydd Portffolio (PAR) a gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio ddatblygu cynllun gweithredu i roi sylw i'r argymhellion.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'n ofynnol dan Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf bod Achos Busnes y Portffolio yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.

**TRAFODAETH**

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Trafodwyd yr adroddiad.

## 9. PROSIECT PARC BRYN CEGIN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan David Matthews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo).

**PENDERFYNIAD**

1. **Cytuno i fynd i Gytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu unedau cyflogaeth ymlaen llaw ar Blot C3 Parc Bryn Cegin fel a ddangosir ar y cynllun ystâd a gynhwyswyd yn Atodiad A i'r adroddiad a gylchredwyd i aelodau'r Bwrdd.**
2. **Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Monitro i gytuno yn derfynol ar y telerau a chwblhau'r Cytundeb Menter ar y Cyd yn unol â'r adroddiad.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn ei gyfarfod ar y 15fed o Orffennaf, 2022, roedd y Bwrdd wedi gofyn am adroddiad pellach ar y Cytundeb Menter ar y Cyd. Roedd yr adroddiad yn cynnig diweddariad ar y trafodaethau, yn gofyn am gadarnhau y bwriad a dirprwyo hawl i gytuno ar y telerau yn derfynol a chwblhau y cytundeb yn unol â'r adroddiad.

**TRAFODAETH**

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00yp a daeth i ben am 3.25yp.

Cadeirydd

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

## Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
## 9 Rhagfyr 2022

**TEITL:** Cynllun Twf Gogledd Cymru - Cronfa Cyflawni'r Portffolio 2023-24

**AWDUR:** Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio
Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw gosod y cynnig i sefydlu Cronfa Cyflawni'r Portffolio i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn cytuno i sefydlu Cronfa Cyflawni Portffolio ar gyfer 2023-24 a chlustnodi hyd at £7m o'r £20m o gyllid y Cynllun Twf nad yw wedi'i glustnodi a ryddhawyd i'r gronfa hon yn sgil y ffaith fod prosiectau Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan a Fferm Sero Net Llysfasi wedi'u tynnu'n ôl.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020,fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae gan Gynllun Twf Gogledd Cymru broses rheoli newid yn ei lle i sicrhau bod newidiadau posib i sgôp y Cynllun Twf a'r prosiectau yn cael eu dal, eu hasesu a lle bo hynny'n berthnasol, eu hystyried gan y Bwrdd.

4.3. Mae’r Cytundeb Twf Terfynol yn nodi sefyllfa'r bwrdd mewn perthynas â phrosiectau amgen posib:

*"Rhaid i unrhyw brosiectau newydd neu amgen sydd i'w cyflwyno am ystyriaeth, ddangos eu bod yn cyflawni yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol ac amcanion yr achos busnes portffolio. Lle mae'r prosiectau hyn o fewn yr amlen ariannol gytûn bresennol ar gyfer y bartneriaeth, byddai angen i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wneud penderfyniad yn eu cylch."*

4.4. Ym mis Medi 2022, fe wnaeth y Bwrdd gytuno ar gyfres o egwyddorion er mwyn adnabod prosiectau newydd yn cynnwys y bydd y Bwrdd yn ystyried, i ddechrau ac ar sail achos wrth achos, geisiadau gan brosiectau presennol ar gyfer cyllid ychwanegol sy'n bodloni cyfres o feini prawf.

Cronfa Cyflawni'r Portffolio 2023-24

4.5. Gan adeiladu ar yr egwyddor a fabwysiadwyd gan y Bwrdd ym mis Medi, mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cynnig bod cyfran o'r cyllid a gaiff ei ryddhau o brosiectau Bodelwyddan a Llysfasi yn cael ei glustnodi i Gronfa Cyflawni'r Portffolio i gefnogi prosiectau aeddfed o fewn y portffolio sy'n gorfod ymdopi â chynnydd mewn costau neu faterion hyfywedd er mwyn gallu symud i gyflawni yn ystod 2023-24 (yn amodol ar benderfyniadau ar wahân gan y Bwrdd).

4.6. Byddai'r gronfa yn lliniaru'r risg o oedi pellach i brosiectau sy'n gorfod ymdopi â chynnydd mewn costau a materion hyfywedd ac yn rhoi mwy o sicrwydd o gyflawni a gwariant cyfalaf yn 2023-24.

4.7. Byddai'r gronfa ar gael i brosiectau gydag achos busnes sydd wedi'i gymeradwyo neu'r rheini sy'n ddigon aeddfed (e.e. wedi cwblhau adolygiad Porth 2) a allai symud ymlaen i gyflawni yn ystod 2023-24.

4.8. Piblinell gwariant cyfalaf disgwyliedig y Cynllun Twf ar gyfer 2023-24 fel y nodir yn Achos Busnes Portffolio 2022 yw £29.5m Byddai pedwar prosiect yn bodloni'r meini prawf uchod ar hyn o bryd a byddant yn gymwys i gyflwyno cynigion am gyllid ychwanegol i alluogi cyflawni:

- Yr Ychydig % Olaf (OBC wedi'i Gymeradwyo)
- Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych (Porth 2 wedi'i gwblhau)
- Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter (OBC wedi'i Gymeradwyo)
- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon (OBC wedi'i Gymeradwyo)

4.9. Ystyrir bod clustnodi £7m i Gronfa Cyflawni'r Portffolio yn ddigonol i sicrhau bod tri o'r prosiectau yn symud ymlaen i gyflawni yn 2023-24, gyda chyfleoedd ariannu eraill ar gael ar gyfer y prosiect Ychydig % Olaf.

4.10. Pe byddai'r Bwrdd yn cefnogi sefydlu'r gronfa, byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gydag arianwyr y prosiectau perthnasol i ddod â chynigion am gyllid ychwanegol i'r prosiectau hyn ymlaen i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

4.11. Byddai disgwyl i'r cynigion lynu at yr egwyddorion a gadarnhawyd yn flaenorol gan y Bwrdd er mwyn ystyried ceisiadau am gyllid ychwanegol:

- gall prosiectau arddangos rhesymeg glir am unrhyw gynnydd mewn costau;
- gall prosiectau arddangos bod opsiynau er mwyn lleihau cost/sgôp wedi'u gwerthuso;
- gall prosiectau dystiolaethu bod y busnes yn parhau i gyflawni gwerth am arian a chymhareb cost budd cadarnhaol;
- gall prosiectau wneud cais am gyfran o'r gost ychwanegol ac yn gallu arddangos pam na all ariannwr y prosiect ysgwyddo'r costau ychwanegol yn llawn neu wneud hynny drwy ffynonellau cyllid eraill.

4.12. Byddai unrhyw benderfyniad gan y Bwrdd i glustnodi cyllid ychwanegol i brosiect o'r Gronfa Cyflawni'r Portffolio yn un dros dro gyda phrosiectau yn dal i orfod cael cymeradwyaeth i achos busnes llawn (FBC) neu achos cyfiawnhad busnes (BJC) i sicrhau'r cyllid.

4.13. Gallai unrhyw gyllid nad yw wedi'i glustnodi unwaith mae'r Bwrdd wedi ystyried y ceisiadau hyn (yn amodol ar benderfyniad ar wahân gan y Bwrdd) naill ai gael ei gadw yn y gronfa i alluogi ystyried ceisiadau pellach yn ddiweddarach neu gael ei drosglwyddo i'r gronfa prosiectau newydd i gynyddu'r cyllid sydd ar gael i brosiectau newydd.

Asesiad Risg

4.14. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cydnabod y risgiau sydd ynghlwm â sefydlu'r gronfa, yn benodol ei bod yn lleihau faint o gyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau newydd i gyflawni yn erbyn targedau'r Cynllun Twf.

4.15. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn ystyried bod y cynnig hwn yn ddull cyfraneddol, gan gydnabod y materion chwyddiant cost sy'n wynebu prosiectau ac yn cydbwyso'r angen i alluogi cyflawni yn erbyn yr angen i adnabod prosiectau newydd.

4.16. Dylid nodi y byddai'r Gronfa Cyflawni'r Portffolio yn fecanwaith benodol i alluogi cyflawni yn 2023-24 ac unwaith y bydd y £7m wedi'i glustnodi ni ellid ystyried ceisiadau pellach am gyllid. Felly, mae risg yn parhau ar gyfer y dyfodol y gallai chwyddiant costau arwain at yr angen am gyllid ychwanegol i brosiectau, yr angen i ail-sgopio i gyd-fynd ag amlenni ariannu a glustnodir neu gael eu tynnu'n ôl.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Cedwir cyllid sydd wedi'i glustnodi dros dro i brosiect sydd wedi'i dynnu'n ôl o Gynllun Twf Gogledd Cymru o fewn y portffolio ehangach ac mae'r penderfyniad ar brosiect neu brosiectau amgen yn fater i'r Bwrdd Uchelgais ei benderfynu. Mater i'r Bwrdd Uchelgais ei bennu yw'r penderfyniad i ail-glustnodi cyllid o fewn y Cynllun Twf hefyd.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae'r Cytundeb Twf Terfynol y cytunwyd arno rhwng partneriaid y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn amlinellu'r paramedrau eang y mae'n rhaid i broses i adnabod prosiectau newydd neu amgen lynu wrthynt.

6.2. Yn unol â Chytundeb Llywodraethu 2 a'r Cynllun Busnes Cyffredinol, bydd ail-glustnodi cyllid o fewn y Cynllun Twf yn fater i'r Bwrdd Uchelgais benderfynu arno o fewn yr amlen fforddiadwyedd gytûn ar gyfer y bartneriaeth a lle mae'r prosiectau'n cyflawni yn erbyn amcanion y Cynllun Twf a'i raglenni.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Fe nodir yn yr adroddiad fod y Bwrdd Uchelgais a 'r cyfrifoldeb am reoli y prosiectau o fewn y Rhaglenni. Mae'r rhesymeg yn briodol ar gyfer sefydlu y gronfa yma yn ymateb rhesymegol i'r heriau sydd yn wynebu rhai prosiectau a chyflawni. Mae'n hanfodol fod y gronfa yn ddarostyngedig i feini prawf gwrthrychol a threfn gwirio a craffu yr achos ar gyfer ymyrraeth a cynigir hyn yn yr adroddiad."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Mae'r risg o chwyddiant costau, ac effaith hynny ar y gallu i wireddu cynlluniau Uchelgais Gogledd Cymru, yn un sylweddol. Bydd sefydlu'r gronfa yma yn cyfrannu at liniaru'r risgiau yma a felly rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir. Bydd angen bod yn glir, fodd bynnag, am y meini prawf angenrheidiol ar gyfer defnydd y gronfa pan ddaw'r amser i wneud hynny."

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**
**9 Rhagfyr 2022**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Proses Newid Prosiect |
| **AWDUR:** | Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio<br>Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw gosod y broses a'r meini prawf ar gyfer y broses newid prosiect.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Cytuno ar y sgôp a'r lleiafswm gofynnol fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

2.2. Cytuno i'r amserlen a nodir yn yr adroddiad hwn gan gynnwys lansio'n ffurfiol ym mis Ionawr 2023.

2.3. Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio i weithredu'r Broses Newid Prosiectau fel y nodir yn yr adroddiad hwn ac i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i gwblhau'r dogfennau sydd ei hangen i gychwyn y broses.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020,fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae gan Gynllun Twf Gogledd Cymru broses rheoli newid yn ei lle i sicrhau bod newidiadau posib i sgôp y Cynllun Twf a'r prosiectau yn cael eu dal, eu hasesu a lle bo hynny'n berthnasol, eu hystyried gan y Bwrdd.

4.3. Mae'r Cytundeb Twf Terfynol yn nodi sefyllfa'r bwrdd mewn perthynas â phrosiectau amgen posib:

*"Rhaid i unrhyw brosiectau newydd neu amgen sydd i'w cyflwyno am ystyriaeth, ddangos eu bod yn cyflawni yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol ac amcanion yr achos busnes portffolio. Lle mae'r prosiectau hyn o fewn yr amlen ariannol gytûn bresennol ar gyfer y bartneriaeth, byddai angen i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wneud penderfyniad yn eu cylch."*

4.4. Ym mis Medi 2022, fe wnaeth y Bwrdd gytuno ar gyfres o egwyddorion er mwyn adnabod prosiectau newydd a phroses tri cham:

**Cam 1: Sganio'r Gorwel**

- Y Bwrdd Uchelgais Economaidd i gytuno ar feini prawf, sgorio a phwysoliad ar gyfer y gweithgaredd sganio'r gorwel gan gynnwys targedau ar gyfer swyddi, buddsoddi a meini prawf cyflawni;
- Ymgymryd â sganio'r gorwel yn cynnwys galwad cyhoeddus am brosiectau;
- Y Cyfarwyddwr Portffolio i ymgymryd ag asesiad porth caled cychwynnol yn unol â'r meini prawf cytûn i ddileu cynigion nad ydynt yn bodloni lefel ofynnol gytûn o ddeilliannau (swyddi ac ati) ac adnabod y rhestr hir.

**Cam 2: Creu Rhestr Hir a Rhestr Fer**

- Asesiad manwl o'r rhestr hir yn erbyn y meini prawf cytûn i adnabod rhestr fer;
- Cais am wybodaeth ychwanegol gan y prosiectau sydd ar y rhestr fer;
- Asesiad rhestr fer yn cynnwys cyflwyniadau i'r Bwrdd Uchelgais i adnabod ffordd ymlaen a ffefrir.

**Cam 3: Cymeradwyo a Datblygu'r Achosion Busnes**

- Argymhelliad ffurfiol i'r Bwrdd Uchelgais i gytuno ar ffordd ymlaen a ffefrir;
- Dechrau datblygu'r achos(ion) busnes.

4.5. Mae'r papur hwn yn gosod y sgôp a'r lleiafswm gofynnol ar gyfer y cam sganio'r gorwel.

<u>Sgôp Sganio'r Gorwel</u>

4.6. Prif sgôp yr ymarferiad sganio'r gorwel fydd i wahodd cynigion am brosiectau sy'n disgyn o fewn y rhaglen Tir ac Eiddo a'r rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth yn sgil tynnu dau brosiect yn ôl o'r ddwy raglen hon.

4.7. Yn ogystal, gwahoddir prosiectau sy'n disgyn i un o'r tair rhaglen arall o fewn y Cynllun Twf i fynegi diddordeb, oherwydd y gellir eu hystyried os nad yw'r cynigion a dderbynnir ar gyfer y rhaglen Tir ac Eiddo a'r rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth yn cyflawni'n ddigonol yn erbyn targedau'r Cynllun Twf. Hefyd, gellid rhoi unrhyw fynegiant o ddiddordeb a dderbynnir ar restr wrth gefn i'w hystyried pe byddai cyllid pellach o fewn y Cynllun Twf ar gael yn y dyfodol.

4.8. Yn amodol ar y penderfyniad gan y Bwrdd ar y Gronfa Cyflawni'r Portffolio 2023-24, bydd £13m ar gael ar gyfer y broses sganio'r gorwel.

<u>Y Lleiafswm Gofynnol</u>

4.9. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cynnig bod y Bwrdd yn cytuno ar y meini prawf lleiafswm gofynnol a nodir yn ***Atodiad A***. Pwrpas y lleiafswm gofynnol yw i alluogi i gynigion gwerth isel/effaith isel gael eu tynnu o'r broses ar y cyfle cyntaf. Nid yw'r trothwyon a osodir yn adlewyrchu dyheadau'r rhanbarth na'r Cynllun Twf a bydd y broses yn ceisio adnabod y pecyn gorau o brosiectau sy'n cyflawni'r buddion mwyaf i'r rhanbarth.

<u>Meini Prawf yr Asesu</u>

4.10. Bydd angen i brosiectau posib gwblhau ffurflen gais ynghyd â darparu gwybodaeth atodol. Mae ***Atodiad B*** yn ddrafft o'r ffurflen gais ac mae'n nodi'r pwysoliad i'w roi i bob elfen o'r cais.

4.11. Caiff cynigion eu hasesu yn erbyn tri phrif maen prawf:

- Yn addas yn strategol (pwysoliad o 25%)
- Effaith (pwysoliad o 40%)
- Y gallu i gyflawni (pwysoliad o 35%)

Cynigir pwysoliad uwch ar gyfer effaith a'r gallu i gyflawni i sicrhau bod y prosiect(au) a ddewisir yn cyflawni'r buddion angenrheidiol i Ogledd Cymru ac yn gallu symud ymlaen yn gyflym i'r cam cyflawni.

Egwyddorion Hyblygrwydd

4.12. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn argymell bod y Bwrdd yn mabwysiadu'r egwyddorion a ganlyn er mwyn cadw'r hyblygrwydd i ddewis y pecyn gorau o gynigion ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru:

- Mae'r Bwrdd yn cadw'r opsiwn i symud prosiectau a/neu cyllid rhwng y ddwy raglen sganio'r gorwel;
- Mae'r Bwrdd yn cadw'r opsiwn i ystyried mynegiannau o ddiddordeb a dderbynnir gan brosiectau sy'n disgyn y tu allan i'r rhaglen Tir ac Eiddo a'r rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth ond o fewn sgôp y tair rhaglen arall o fewn y Cynllun Twf;
- Gellid rhoi prosiectau sy'n aflwyddiannus wrth sicrhau cyllid drwy'r broses hon ond sy'n sgorio'n uchel yn erbyn y meini prawf sydd wedi'u gosod (yn cynnwys y rhai sy'n sgorio'n uchel ar Addas yn Strategol ac Effaith ond nad ydynt yn bodloni'r trothwyon gallu i gyflawni) ar restr wrth gefn i'w hystyried yn y dyfodol pe byddai cyllid pellach ar gael.

Amserlenni

4.13. Mae amserlen dros dro wedi'i chynnwys isod, yn amodol ar benderfyniad y Bwrdd ar 9 Rhagfyr. Bydd faint o amser sydd ei angen i gwblhau gweithgareddau asesu yn dibynnu ar nifer y cynigion a dderbynnir.

| **Gweithgaredd** | **Amserlenni** |
|---|---|
| Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd | 9 Rhagfyr 2022 |
| Cyfathrebu/Cysylltiadau Cyhoeddus anffurfiol i ddenu sylw bidwyr posib | Rhagfyr 2022 (ar ôl cyfarfod y Bwrdd Uchelgais) |
| Lansio Sganio'r Gorwel | Canol Ionawr 2023 |
| Gorffen Sganio'r Gorwel | Diwedd Chwefror 2023 (tua 6 wythnos) |
| Porth Caled, Creu Rhestr Hir a Rhestr Fer | Mawrth 2023 |
| Gofyn am ragor o wybodaeth gan y prosiectau sydd ar y rhestr fer | Ebrill 2023 |
| Asesiad o'r Rhestr Fer a Phenderfyniad y Bwrdd Uchelgais | Mai 2023 |

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Cedwir cyllid sydd wedi'i glustnodi dros dro i brosiect sydd wedi'i dynnu'n ôl o Gynllun Twf Gogledd Cymru o fewn y portffolio ehangach ac mae'r penderfyniad ar brosiect neu brosiectau amgen yn fater i'r Bwrdd Uchelgais ei benderfynu.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r Cytundeb Twf Terfynol y cytunwyd arno rhwng partneriaid y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn amlinellu'r paramedrau eang y mae'n rhaid i broses i adnabod prosiectau newydd neu amgen lynu wrthynt.

6.2. Yn unol â Chytundeb Llywodraethu 2 a'r Cynllun Busnes Cyffredinol, bydd ail-glustnodi cyllid o fewn y Cynllun Twf yn fater i'r Bwrdd Uchelgais benderfynu arno o fewn yr amlen fforddiadwyedd gytûn ar gyfer y bartneriaeth a lle mae'r prosiectau'n cyflawni yn erbyn amcanion y Cynllun Twf a'i raglenni.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad A** | Blaenoriaethau Sganio’r Gorwelion |
| **Atodiad B** | Ffurflen Gais ddrafft |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

“Sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais Economaidd gan y chwech Cyngor i weithredu fel corff rheoli a chyflawni ar eu rhan ar gyfer y Cynllun Twf. Un o’r swyddogaethau oedd ail gyfeirio adnoddau Cynllun Twf ar gyfer projectau amgen pe cyfyd yr angen. Fel y nodir mae’r Cynllun Busnes Goruwch a gytunwyd rhwng y partïon yn mynnu fod y prosiectau y gall y Bwrdd Uchelgais eu cymeradwyo ddisgyn o fewn amlen fforddiadwyedd y bartneriaeth ac a’r gallu I gyflawni yn erbyn amcanion y Cynllun Twf a’i raglenni. Mae’n hanfodol bwysig felly fod prosiectau newydd yn cael eu hasesu yn wrthrychol gan gyfeirio at feini praw sydd yn cefnogi y disgwyliad craidd ar y Bwrdd Uchelgais. Mae’r meini prawf yn darparu fframwaith ar gyfer cefnogi y broses yma.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

“Mae'n allweddol fod meini prawf clir yn cael eu sefydlu ar gyfer y broses hwn. Rwyf yn croesawu'r adroddiad fel rhan bwysig o'r drefn llywodraethu ar gyfer ail ddyrannu adnoddau.”

**Atodiad A - Gofynion Sylfaenol (ni fydd prosiectau yn cael eu hystyried os nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf yma)**

| | **Rhaglen Tir ac Eiddo** | **Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth** |
|---|---|---|
| **Ffit Strategol (25%)** | Y sgôp fydd y **rhaglen gyfan** - bydd cynigion sy'n gallu cyflawni yn erbyn nodau/amcanion y rhaglen yn cael eu croesawu.<br><br>Rhaid i noddwyr prosiect ymrwymo i gyflawni yn erbyn egwyddorion caffael a datganiad safbwynt newid hinsawdd y Bwrdd. | Y sgôp fydd y **rhaglen gyfan** sy'n cynnwys bwyd, amaethyddiaeth a thwristiaeth. Bydd cynigion sy'n gallu cyflawni yn erbyn nodau/amcanion y rhaglen yn cael eu croesawu. Rhaid i gynigion gyflawni ar gyfer **cymunedau gwledig**.<br><br>Rhaid i noddwyr prosiect ymrwymo i gyflawni yn erbyn egwyddorion caffael a datganiad safbwynt newid hinsawdd y Bwrdd. |
| **Effaith (40%)** | Rhaid i gynigion ddarparu o leiaf **15 swydd gros i bob £1m** o gyllid y Cynllun Twf y gofynnir amdano.<br><br>Rhaid i gynigion ddarparu o leiaf **£2m mewn cyllid cyfalaf cyfatebol pob £1m** o gyllid y Cynllun Twf y gofynnir amdano.<br><br>Ni fydd unrhyw gynigion am **lai na £2m** o gyllid y Cynllun Twf yn cael eu hystyried.<br><br>**Gellir ystyried cynigion nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf uchod ar sail eithriad lle gallant ddangos effaith ranbarthol neu leol sylweddol.* | Rhaid i gynigion ddarparu o leiaf **10 swydd gros i bob £1m** o gyllid y Cynllun Twf y gofynnir amdano.<br><br>Rhaid i gynigion ddarparu o leiaf **£0.5m mewn cyllid cyfalaf cyfatebol pob £1m** o gyllid y Cynllun Twf y gofynnir amdano.<br><br>Ni fydd unrhyw gynigion am **lai na £2m** o gyllid y Cynllun Twf yn cael eu hystyried.<br><br>**Gellir ystyried cynigion nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf uchod ar sail eithriad lle gallant ddangos effaith ranbarthol neu leol sylweddol.* |
| **Cyflawni (35%)** | Bydd angen nodi'r holl ffynonellau cyllido **fel lleiafswm**.<br><br>Rhaid i safle arfaethedig gael ei **ddyrannu mewn** Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig/arfaethedig **neu'n gydnaws â pholisi'r** Cynllun Datblygu sefydledig.<br><br>Os nad yw'r safle ym mherchnogaeth noddwr y prosiect, yna mae'n rhaid i **gytundebau fod yn eu lle** gyda phob tirfeddianwyr.<br><br>Rhaid i bob cynnig fod yn gydnaws â **rheolau rheoli cymhorthdal**. | Bydd angen nodi'r holl ffynonellau cyllido **fel lleiafswm**.<br><br>Rhaid i safle arfaethedig gael ei **ddyrannu mewn** Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig/arfaethedig **neu'n gydnaws â pholisi'r** Cynllun Datblygu sefydledig.<br><br>Os nad yw'r safle ym mherchnogaeth noddwr y prosiect, yna mae'n rhaid i **gytundebau fod yn eu lle** gyda phob tirfeddianwyr.<br><br>Rhaid i bob cynnig fod yn gydnaws â **rheolau rheoli cymhorthdal**. |

**Atodiad A - Cwestiynau/Cyfarwyddyd Sganio'r Gorwel Drafft**

**Manylion yr Ymgeisydd**

| | |
|---|---|
| **Ariannwr y Prosiect (Sefydliad Arweiniol)** | *Enw'r sefydliad arweiniol sy'n cyflwyno'r cynnig* |
| **Uwch Swyddog Cyfrifol** | *Enw'r uwch swyddog cyfrifol o fewn y sefydliad ar gyfer y cynnig* |
| **Swyddog Arweiniol Arfaethedig** | *Enw'r swyddog sydd â chyfrifoldeb dydd i ddydd am y cynnig* |
| **Cyfeiriad e-bost** | *Cyfeiriad e-bost y swyddog arweiniol* |
| **Rhif ffôn** | *Rhif ffôn y swyddog arweiniol* |

**Crynodeb o'r Cynnig**

| | |
|---|---|
| **Enw'r Prosiect** | *Enw'r prosiect* |
| **Math y Prosiect** | *Bid unigol neu bid pecyn* |
| **Rhaglen** | *Rhaglen berthnasol o fewn y Cynllun Twf* |
| **Lleoliad y Prosiect** | *Cyfeiriad Postio'r safle(oedd) yn cynnwys cod post neu gyfesurynnau O/S, os yn berthnasol.* |
| **Trosolwg o'r Cynnig** | *Rhowch drosolwg o'r cynnig bid os gwelwch yn dda. Os oes gan fidiau sawl cydran (bidiau pecyn) dylech egluro sut mae'r elfennau cydrannol yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn cynrychioli cyfres resymegol o ymyriadau (Uchafswm o 500 gair)* |
| **Gofynion Ariannu** | *Faint o gyllid cyfalaf y mae'r prosiect yn gofyn amdano gan Gynllun Twf Gogledd Cymru* |
| **Cydweithio** | *A yw ariannwr y prosiect yn fodlon ystyried cydweithio â rhanddeiliaid/partneriaid eraill y gall Uchelgais Gogledd Cymru eu hadnabod yn ystod y broses hon er mwyn cyflawni'r deilliannau gorau i'r Gogledd? Y/N* |

**Y Lleiafswm Gofynnol**

| A fyddech cystal â chadarnhau bod y cynnig yn bodloni'r lleiafswm gofynnol i'w ystyried | | |
|---|---|---|
| **Strategol** | ** Penodol i bob rhaglen fel y nodir yn Atodiad A* | Y/N |
| **Effaith** | ** Penodol i bob rhaglen fel y nodir yn Atodiad A* | Y/N |
| **Gallu i Gyflawni** | ** Penodol i bob rhaglen fel y nodir yn Atodiad A* | Y/N |

**Yn addas yn strategol (25%)**

| | |
|---|---|
| **Alinio â nodau/amcanion y Cynllun Twf a'r rhaglen ac yn cyd-fynd â mentrau rhanbarthol eraill (40%)** | *Nodwch sut mae'r cynnig yn alinio â Chynllun Twf Gogledd Cymru a'r rhaglen berthnasol, ac yn cyflawni yn erbyn eu nodau/amcanion (uchafswm 500 gair)* |
| **Yn cyd-fynd â mentrau rhanbarthol eraill (15%)** | *Nodwch sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â phrosiectau rhanbarthol eraill y tu allan i'r Cynllun Twf (uchafswm 250 gair)* |
| **Alinio â pholisïau rhanbarthol a chenedlaethol (15%)** | *Nodwch sut mae'r cynnig yn cyflawni yn erbyn y polisïau rhanbarthol a chenedlaethol allweddol a nodir yma. (uchafswm 250 gair)* |
| **Yr achos dros newid a Chefnogaeth Rhanddeiliaid - pam fod angen y prosiect (30%)** | *Nodwch yr achos dros newid ar gyfer y prosiect gan ddefnyddio'r templed sydd ynghlwm. Yn benodol, dylai hyn drafod yr angen am y prosiect, cefnogaeth rhanddeiliaid, y broblem y mae'n mynd i'r afael â hi a methiant y farchnad sy'n golygu bod ymyrraeth cyllid cyhoeddus yn angenrheidiol. (Tabl)* |

**Effaith (40%)**

| | |
|---|---|
| **Swyddi a grëir, amserlen cyflawni a thystiolaeth am y swyddi a grëir (40%)** | *Rhan 1 (50%)*<br>*Nodwch nifer y swyddi (uniongyrchol/anuniongyrchol) i'w creu gan y prosiect. (Tabl)*<br><br>*Rhan 2 (50%)*<br>*Dylech nodi'r dystiolaeth ar gyfer y ffigyrau hyn yn cynnwys natur y swyddi (e.e. gwerth uchel) a ph'un a ydynt yn swyddi gros neu net. (uchafswm 250 gair)*<br><br>*Dylid darparu amserlen ar gyfer cyflawni'r swyddi. (Tabl)* |
| **Cyfanswm buddsoddiad cyfalaf (35%)** | *Nodwch gyfanswm cost cyfalaf y prosiect. (Tabl)* |
| **Effaith Ranbarthol a buddion ehangach (25%)** | *Nodwch sut bod gan y prosiect effaith ranbarthol neu a yw prosiect o bwys rhanbarthol/lleol yn cynnwys y buddion ehangach y byddai'r prosiect yn eu cyflawni. (uchafswm 500 gair)* |

**Y gallu i gyflawni (35%)**

| | |
|---|---|
| **Statws cyllid cyfalaf a sicrwydd cost a statws cyllid refeniw (30%)** | *Nodwch y ffynonellau ariannu cyfalaf ar gyfer y prosiect a ph'un a ydynt wedi'u sicrhau neu beth yw eu statws cyfredol. (Tabl)*<br><br>*Rhowch fanylion am sut mae'r costau cyfalaf ar gyfer y prosiect wedi'u cyfrifo, yn cynnwys faint o arian wrth gefn sydd wedi'i gynnwys yn y costau a phryd wnaed y cyfrifon hyn (uchafswm 250 gair)* |
| **Statws cynllunio a pherchnogaeth tir (25%)** | *Beth yw defnydd cyfredol y safle? A yw'r cynnig yn alinio â pholisi cynllunio cyfredol?*<br><br>*Beth yw statws cyfredol unrhyw ganiatadau/ceisiadau statudol (os o gwbl)? Amlinellol / Llawn / Adeilad Rhestredig / Ardal Gadwraeth / Draeniad / Priffyrdd / Newid Defnydd / Rheoliadau Adeiladu.*<br><br>*Beth yw'r amserlen a ragwelir er mwyn cael yr holl ganiatadau statudol angenrheidiol?*<br><br>*Pwy yw perchennog tir y safle? Os nad yw ym mherchnogaeth yr ymgeisydd, pa ganiatadau sydd yn eu lle gyda'r perchnogion tir?*<br><br>*Dylech gynnwys cynllun safle'r prosiect gyda ffiniau llinell goch ac unrhyw gynlluniau/dyluniadau ar gyfer y safle*<br><br>*(uchafswm 500 gair ac atodiadau)* |
| **Amserlen, adnoddau a refeniw ar gyfer cyflawni (25%)** | *Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect (dylech atodi cynllun prosiect)*<br><br>*Pa adnoddau a phrofiad sydd yn eu lle i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r achos busnes a chyflawni'r prosiect (uchafswm o 250 gair)*<br><br>*Nodwch y gofynion refeniw i gyflawni gweithrediad y prosiect, y ffynonellau ariannu a ph'un a ydynt wedi'u sicrhau neu beth yw eu statws cyfredol. (Tabl)* |
| **Hanes wedi'i brofi ac Iechyd Ariannol ariannwr y prosiect (20%)** | *Darparwch ddatganiad ar hanes wedi'i brofi yr ymgeisydd wrth gyflawni prosiectau o'r natur hwn (uchafswm o 250 gair)*<br><br>*Darparwch dystiolaeth am iechyd ariannol ariannwr y prosiect (atodwch)* |
| **Risgiau, Cyfyngiadau a Dibyniaethau (10%)** | *Nodwch y 3 risg uchaf ar gyfer y prosiect yn cynnwys sut y byddech yn ceisio lliniaru'r rhain.*<br><br>*Nodwch unrhyw gyfyngiadau neu ddibyniaethau i gyflawni'r prosiect.*<br><br>*(uchafswm 250 gair)* |